Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru
Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Gorffennaf / July 2019

Annwyl Gydweithiwr

**Grant Gwella Addysg 2019-20 (GGA)**

Yn dilyn derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, ysgrifennaf i gadarnhau'r sefyllfa derfynol ynglŷn â'r Grant Gwella Addysg (GGA) ar gyfer 2019-20. Mae'r Grant Gwella Addysg yn rhan o'r Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion (GRCGY).

Dywed y canllawiau bod rhaid i o leiaf 80% o'r elfen Grant Gwella Addysg o'r grant gael ei ddatganoli i ysgolion.

Yn dilyn penderfyniad y 6 awdurdod lleol, mae'r ffigyrau ar gyfer rhanbarth GwE bellach yn derfynol ac mae'n bleser gen i ddweud y caiff ysgolion o leiaf 89.68% o'r GGA.

Rydych eisoes wedi derbyn cadarnhad o'r cyfanswm y bydd eich ysgol yn ei dderbyn gan dîm cyllid eich awdurdod lleol (trosglwyddir hwn yn syth i gyllidebau eich ysgol). Ar ben hynny, mae 5.48% arall o'r gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer darpariaeth uniongyrchol mewn ysgolion targed (e.e. cefnogaeth i ddisgyblion SIY a disgyblion Sipsi/Teithwyr), i'w reoli gan yr awdurdodau lleol. Dyrennir 0.78% arall am y tro i'r awdurdodau lleol er mwyn darparu gweithgareddau a dargedir yn lleol, tra dyrennir 3.34% arall i gyflwyno Cynllun CALU a chefnogi trefniadau statudol Sefydlu ANG, ynghyd â chyllid ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol i dargedu cefnogaeth mewn Llythrennedd a Rhifedd a chydlynu'r Cyfnod Sylfaen yn rhanbarthol - darperir y cyfan gan GwE. Mae hynny'n gadael 0.73% i GwE ac i'r Awdurdodau weinyddu'r grant.

Dear Colleague

**Education Improvement Grant 2019-20 (EIG)**

Following confirmation from Welsh Government, I am writing to confirm the final situation with regard to the Education Improvement Grant (EIG) for 2019-20. The Education Improvement Grant is now part of the Regional Consortia School Improvement Grant (RCSIG).

Guidelines state that the Education Improvement Grant element of the grant has to be at least 80% delegated to schools.

Following the decision of the 6 local authorities, we have now finalised the figures for the GwE region and I am pleased to inform you that schools will receive a minimum of 89.68% of the EIG.

You will have already received confirmation of the amount your school will receive from your local authority finance team (this will be transferred directly into your school budgets). In addition to this, a further 5.48% of the budget is committed to direct provision in targeted schools (e.g. support for EAL and Gypsy/Traveller pupils) and is being managed by the local authorities. A further 0.78% is currently allocated to local authorities in order to deliver targeted activities locally whilst a final 3.34% is allocated to the delivery of the HLTA Scheme and support of the statutory Induction of NQTs, along with funding for regional priorities in providing targeted support for Literacy and Numeracy & the regional coordination of the Foundation Phase – all being delivered by GwE. That leaves a final

Mae cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i gonsortia rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol yn nodi nad oes angen cynlluniau gwariant grant ar lefel ysgol unigol, ac y bydd ".. Ymgynghorwyr Her y Consortia yn cefnogi a herio ysgolion i sicrhau bod eu cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchu, yn briodol, eu taith tuag at welliant a'u deilliannau disgwyliedig yn unol â thelerau ac amodau'r grant a'r cynlluniau busnes cymeradwy."  Mae disgwyliad clir i ysgolion "ddarparu dadansoddiad o ddyraniad eu Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion yn eu cynllun datblygu ysgol."

Er mwyn cefnogi ysgolion i gydymffurfio â'r disgwyliad hwn, rydym wedi llunio'r tabl atodol sy'n rhestru ystod o "bwrpasau'r grant" ac, felly, categorïau gwariant cymwys. Gofynnir i chi gwblhau'r tabl fel rhan o'ch trefn gynllunio ar gyfer gwella'r ysgol a'i rannu efo'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, gan hefyd anfon copi at dîm cyllid eich awdurdod lleol. Am bob cyllid grant ar wahân i'r Cyfnod Sylfaen, mae gennych hyblygrwydd i'w ddyrannu yn ôl yr angen rydych wedi'i adnabod drwy eich hunan arfarniad, ac er mwyn hybu unrhyw weithgareddau perthnasol yn eich Cynllun Datblygu Ysgol.

Cofiwch gysylltu â'r sawl a nodir isod yn y lle cyntaf, efo unrhyw ymholiadau am y GGA:

- Am unrhyw ymholiadau am ddyrannu'r cyllid a sut y dylech gael mynediad ato, cysylltwch â'r tîm cyllid yn eich awdurdod lleol;
- Am unrhyw ymholiadau am weithgareddau gwario cymwys,

0.73% for GwE and the Authorities to administer the Grant.

Welsh Government guidance for regional consortia and Local Authorities clarifies that individual school-level grant spending plans are not required and that "..Consortia Challenge Advisers will provide support and challenge to schools to ensure their school development plans appropriately reflect their improvement journey and expected outcomes in line with the grant terms and conditions and consortia business plans." There is a clear expectation for schools to "provide a breakdown of their Education Improvement Grant for Schools allocation in their school development plan."

In order to support schools in complying with this expectation, we have put together the attached table which lists the range of "grant purposes" and, therefore, the categories of eligible expenditure. You are requested to complete the attached table as part of your school improvement planning process and to share it with your Supporting Improvement Adviser, with a copy to be sent to your local authority finance team. For all grant funding apart from the Foundation Phase, you have flexibility to allocate it in accordance with the need you have identified via your self-evaluation and in order to progress any relevant activities you have identified in your School Development Plan.

If you have any queries about the EIG, please contact the following in the first instance:

- For any queries regarding the allocation of funding and how you should access it, please contact the finance team in your local authority;
- For any queries relating to eligible spend activities, monitoring and

| | |
|---|---|
| monitro ac arfarnu effeithiolrwydd eich gweithgareddau a gyllidir gan y GGA i wella deilliannau dysgwyr, cysylltwch ag Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant eich ysgol. | evaluating the effectiveness of your EIG funded activities in terms of improved learner outcomes, please contact your school's allocated Supporting Improvement Adviser. |

Yn gywir / Yours sincerely

Arwyn Lloyd Thomas
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE/GwE Managing Director